

**Ysgol Gyfun
Gymraeg
Bro Myrddin**



**Gwybodaeth
Cytundeb
Cartref/Ysgol**

EGWYDDORION A RHEOLAU'R YSGOL

1. Safonau yn yr ysgol:

Mae ein cwricwlwm ym Mlynnyddoedd 7, 8 a 9 yn seiliedig ar bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ynghyd ag Addysg Grefyddol, ond hefyd yr ydym yn cynnwys meysydd eraill yr ydym yn eu hystyried yn bwysig megis Drama, Addysg Personol a Chymdeithasol, ac Addysg Gyrfau. Yr ydym yn ffyddiog bod y cwricwlwm yn diwallu anghenion ein holl blant, ac yr ydym yn credu bod gan bob un ohonom yn rhieni, staff, plant a llywodraethwyr, gyfraniad i'w wneud o ran cyrraedd ein nodau. Mae'r ysgol yn llwyddo eisoes i gyrraedd y targedau a bennwyd gan y Cynulliad, a'n nod yw parhau i gynnal safonau uchel.

2. Cymeriad ein hysgol

- **Ethos:** Mae'r ysgol yn anelu i roi cyfle i bob disgybl ddatblygu hyd eithaf ei allu yn academaidd, yn gymdeithasol yn ddiwylliannol ac yn gorfforol. Rhoddir pwyslais ar werthoedd moesol ac ysbrydol, ac mae'r gwasanaeth boreol yn allweddol yn hyn o beth. Disgwylir i ddisgyblion achub ar bob cyfle i ymarfer yr iaith Gymraeg yn gyson, yn enwedig wrth drafod gyda'i gilydd yn gymdeithasol. Disgwylir eich cydweithrediad chithau fel rhieni i'w hannog i ddefnyddio'r iaith.
- **Disgyblaeth ac Ymddygiad:** Rhaid wrth reolau ysgol er mwyn diogelu trefn a safonau o fewn yr ysgol. Fe'u seilir ar y syniadau canolog o hunan-barch, parch at eraill a synnwyr cyffredin. Trafodir y rheolau mewn gwrsi tiwtorial a disgwylir i bob disgybl gydymffurfio. Ein nod yw sicrhau amgylchedd ddisgybledig ac addas i waith ym mhob gwrs. Gofynnir i'r rhieni gefnogi'r ysgol drwy lynu wrth ein cytundeb o ran disgyblaeth ac ymddygiad. Mae croeso i chi rieni i ddarllen ein polisiau ynghylch ymddygiad ac atal bwlio, a rhoi eich sylwadau arnynt.
- **Presenoldeb:** Yr ydym yn disgwyl i'r holl ddisgyblion ddod i'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Mae'r diwrnod ysgol yn cychwyn am 8:55yb. Rydych chi fel rhieni yn gyfrifol yn gyfreithiol am sicrhau bod eich plant yn dod i'r ysgol, ac mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r ysgol am unrhyw absenoldeb. Ym Mro Myrddin yr ydym yn gofyn i chi ddanfôn nodyn yn esbonio'r absenoldeb pan fo eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol. Fel ymhob ysgol gynradd ac uwchradd arall yn y sir ni fydd yr ysgol yn barod i awdurdodi unrhyw absenoldebau a achosir gan wyliau adeg tymor. Golyga hyn y caiff absenoldebau a achosir gan ddisgyblion yn cymryd gwyliau adeg tymor, eu cofnodi yn rhai anawdurdodedig.
- **Gwaith Cartref:** Mae gwaith cartref yn rhan bwysig o gwrs addysg pob adran yn yr ysgol ac yn orfodol i bob disgybl, ac fe gaiff ei asesu gan yr athrawon. Trefnir amserlen gwaith cartref ar gyfer pob dosbarth a chofnodir y gwaith gan y disgyblion yn y Trefnydd personol yn ddyddiol. Mae'r dyddiadur gwaith cartref yn ddolen gyswllt bwysig iawn rhwng yr ysgol a chithau fel rhieni. Disgwylir i'r Trefnydd Personol gael ei lofnodi gan athrawon dosbarth ac yn wythnosol gennych chi fel rhieni. Dylem gofio bod plant yn elwa fwyaf pan fyddant yn gallu siarad ag oedolyn am beth y maent yn ei wneud.

3. Sut a phryd y mae'r rhieni a'r ysgol yn cyfnewid gwybodaeth

- Mae Ysgol Bro Myrddin yn rhoi gwybodaeth am ddyddiadau pwysig y flwyddyn ar ein gwefan **ac yn y Trefnydd Personol**.
- Gofynnir i chi ddod i Noson Rien unwaith y flwyddyn er mwyn trafod gwaith eich plant gyda'r athrawon. Rydych yn cael adroddiad ysgrifenedig llawn ar waith eich plentyn yn ystod y flwyddyn. Mae angen i chi roi gwybod i'r ysgol os ydych yn poeni am unrhyw beth a allai effeithio ar gynnydd eich plentyn yn yr ysgol. Mae angen i chi siarad yn gyntaf oll â'r Pennaeth Ysgol neu'r Pennaeth Blwyddyn.

4. Cwynion

Mae gennym oll hawl i gael ystyriaeth briodol os ydym yn gwneud cwyn. Bydd pob cwyn yn cael ei thrin mewn modd sensitif a bydd yr ysgol yn ymateb yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl.

5. Materion Iechyd

Os bydd disgybl yn dost yn ystod y diwrnod ysgol cysylltir â rhieni neu'r person cyswllt. Gofynnir i chi roi gwybod yn ysgrifenedig i'r **Swyddog Ymgysylltu a Lles, Mrs Dolan Williams** os yw disgybl yn cymryd meddyginiaeth o fewn oriau ysgol.

6. Addysg Rhyw

Dysgir y pwnc yma o dan ymbarél y Rhaglen Fugeiliol a'r Rhaglen Addysg Personol a Chymdeithasol yn ogystal ag o fewn gwersi Bioleg ac Addysg Grefyddol. Mae Addysg Rhyw yn cyflwyno gwybodaeth ac yn annog disgyblion i ddatblygu agweddau sy'n caniatáu iddynt drefnu eu bywydau mewn ffordd iach a chyfrifol. Strwythurir y gwersi a'r ymweliadau gan siaradwyr allanol arbenigol yn ofalus fel bod cydestun moesol a chyfrifol yn cael ei osod yn glir fel sail i bob trafodaeth.

7. Gwisg Ysgol ac Ymarfer Corff

Mae Ysgol Bro Myrddin yn ymfalchïo mewn safon gwisg ein disgyblion. Gofynnwn i chi, fel rhieni, i'n cefnogi i gynnal y safonau uchel hyn trwy sicrhau eich bod yn prynu gwisg ysgol i'ch plentyn sydd yn cydymffurfio yn llawn gyda rheolau gwisg yr ysgol ac yn ogystal i annog eich plentyn i barchu ac i ddilyn y rheolau hyn bob amser. Yr eitemau isod yw'r unig rai sy'n dderbyniol i'r ysgol. Rhaid gosod enw ar holl eiddo'r plentyn.

Gwisg Ysgol

- Sgert ddu blaen steil 'A', hyd y benglin (*neu o leiaf 18 modfedd o hyd*) gyda phoced a zip a phlet yn y cefn. Ni chaniateir sgertiau byr, tynn mewn ffabrig ymestyn (*stretchy material*)
- Trowsus du, steil clasurol. DIM JÎNS DU NA THROWSUS FLARES NEU FFIT DENAU
- Blows / crys lelog swyddogol – llewys hir neu fyr, steil rheolaidd neu wedi'i ffitio
- Tei swyddogol yr ysgol
- Siwmpwr swyddogol yr ysgol – gwddf V blaen gyda bathodyn yr ysgol wedi ei wnïo i mewn
- Teits trwchus du gyda sgert.
- Sanau hyd y bigwrn du / gwyn yn yr Haf yn unig (opsiynol)
- Sanau du / gwyn gyda trowsus
- Esgidiau lledr du plaen – ni chaniateir esgidiau ymarfer (*trainers*) nac esgidiau cynfas
- Cot o liw tywyll ar gyfer gwisgo tu allan
- Ffedog ar gyfer gwern technoleg

Gwisg Ymarfer Corff

Rhaid i holl eitemau gwisg ymarfer corff eich plentyn fod yn wisg swyddogol yr ysgol.

- Skort ddu neu siorts ysgafn (*ni chaniateir siorts lycra tynn a byr iawn*)
- Siorts rygbi
- Crys chwaraeon gyda streipen lelog
- Crys-T gyda streipen lelog
- Sanau chwaraeon
- Legins $\frac{3}{4}$ (*opsiynol*)
- Crys chwys (*opsiynol*)
- Cot law (*opsiynol*)
- Esgidiau ymarfer (*trainers*)
- Esgidiau hoci/pêl-droed/rygbi
- Padiâu crimog
- Gorchudd dannedd

Bydd disgwyl i ddisgyblion newid i wisg Ymarfer Corff/Chwaraeon bob gwern onibai bod ganddynt lythyr i'w hesgusodi o weithgareddau'r wers oherwydd rhesymau meddygol.

8. Tlysau

Ni chaniateir tlysau megis modrwyon, breichledau, cadwyni braich, tsaen. O ran clustdlysau caniateir un clustdlws bach aur/arian ym mhob clust. Awgrymwn y dylid tyllu clustiau ar ddechrau gwyliau'r haf yn unig. Rhaid tynnu'r clustdlysau ar gyfer gwersi Chwaraeon ac Ymarfer Corff. Anodd gwneud hyn os yw'r clustiau newydd eu tyllu. Nid oes hawl gan ddisgybl wisgo stydiau mewn unrhyw dylliadau (*piercings*) eraill. Mae gan aelodau staff yr hawl i ofyn i ddisgybl gael gwared ar y rhain os bydd yn torri'r rheol.

9. Gwallt

Ni chaniateir arddulliau gwallt eithafol gan gynnwys eillio rhannau o'r pen neu batrymau i mewn i'r gwallt/aeliau. Dylai lliw y gwallt fod yn naturiol ac unrhyw liwio gwallt i gyd-fynd â'r naturiol hynny. Dylai unrhyw addurn gwallt gydymffurfio â lliwiau'r ysgol sef lelog, llwyd neu ddu.

10. Ffôn Symudol/iPads

- Ni chaniateir i'r disgyblion ddod â'r rhain nac eitemau drud eraill tebyg i'r ysgol.
- Nid oes hawl gan ddisgyblion i dynnu lluniau ar eu ffonau symudol tra ar safle'r ysgol.
- Byddwn yn dychwelyd at bolisi llym yr ysgol o ran y defnydd o ffonau symudol sef nad oes caniatad gan unrhyw ddisgybl o flwyddyn 7-11 i ddod a ffôn symudol i'r ysgol.
- Os oes rhaid bod y ffôn gan y disgybl yna mae bocsys ar eu cyfer yn y swyddfa. Yn anffodus, rydym wedi gweld cynnydd o ffonau symudol ac enghreifftiau o ddisgyblion yn tynnu lluniau heb ganiatad o ddisgyblion eraill a staff; ffilmio disgyblion ac athrawon heb ganiatad; defnydd o negeseuon anaddas ar y ffonau a thipyn o haerllugrwydd wrth i aelod o staff fynd a'r ffôn oddi wrthynt.
- O fis Medi ymlaen;
 - ❖ os bydd ffonau yn cael eu darganfod ar ddisgybl byddant yn cael y ffôn nôl y tro cyntaf gyda rhybudd
 - ❖ os yw'r ffôn yn cael ei darganfod ar ddisgybl am yr eildro, fe fydd y ffôn yn cael ei chadw yn ddiogel yn yr ysgol tan eich bod chi fel rhiant yn cysylltu gyda'r ysgol yn gofyn i ni am ganiatad i'w dychwelyd.
- Rydym yn dymuno fel ysgol bod y disgyblion yn cael brêc llwyr o'u ffonau symudol o 8:45 tan 3:35 er eu lles personol hwythau.

11. Gweithgareddau Allgyrsiol

- Cynigir amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol o fewn yr ysgol, gyda chwaraeon, drama, siarad cyhoeddus, llefaru a cherddoriaeth yn chwarae rhan bwysig. Mae'r ysgol yn cefnogi holl weithgareddau Urdd Gobaith Cymru, ac anogir disgyblion i ymaelodi gyda'r mudiad hwn.
- Cynhelir nifer o glybiau yn ystod yr awr ginio neu ar ôl ysgol gan gynnwys y Clwb Siarad Cyhoeddus, Gwobr Dug Caeredin, ymarferion Côr a Cherddorfa, yn ogystal â gweithgareddau chwaraeon amrywiol i baratoi ar gyfer cystadlaethau.

CANLLAWIAU I RIENI AR BRESENOLDEB

Dylai rhieni ddilyn y drefn ganlynol os yw disgybl yn absennol am unrhyw reswm:

- ffonio swyddfa'r ysgol cyn 8:30yb i egluro'r rheswm dros yr absenoldeb
- danfon llythyr o eglurhad neu nodyn yn y trefnydd personol ar y diwrnod mae y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol

Nid yw'r canlynol yn rhesymau derbyniol i golli ysgol neu ran o ddiwrnod ysgol

- apwyntiad deintydd neu feddyg (*oni bai ei fod yn argyfwng neu'n rhan o driniaeth hirdymor*)
- helpu gartref
- adloniant / siopa / gweithgaredd hamdden

Canllawiau i rieni

Er mwyn sicrhau eich bod yn ymateb i ofynion deddf gwlad ac yn sicrhau bod eich plentyn yn manteisio ar bob cyfle addysgiadol i gyrraedd ei lawn botensial:

- dylid gwneud pob ymdrech i drefnu unrhyw apwyntiadau tu allan i oriau ysgol.
- dylid gofyn am ganiatâd ymlaen llaw os yw'r rheswm am yr absenoldeb yn hysbys.
- rhaid trefnu gwyliau teuluol y tu allan i ddiwrnodau ysgol gan bod absenoldeb o ddiwrnodau neu wythnosau yn cael effaith andwyol ar gynnydd disgybl.
- dylid gwneud penderfyniad os yw salwch eich plentyn yn ddigon difrifol i fod yn absennol o'r ysgol gan bod gwaith pwysig yn cael ei golli. Os yw absenoldeb oherwydd salwch yn digwydd dylid ceisio cyngor meddyg. Os yw absenoldeb yn digwydd oherwydd problem yn deillio o bryder ar ran eich plentyn ynglŷn â dod i'r ysgol, dylech gysylltu â'r ysgol yn syth er mwyn trafod y mater gyda'r Pennaeth Blwyddyn.

Os bydd disgybl yn absennol;

- heb esboniad
- heb esboniad sy'n dderbyniol i'r ysgol
- yn gyson neu absenoldeb cyfnod hir;

gallwch ddisgwyl llythyr swyddogol oddi wrth yr ysgol ac yna ymweliad oddi wrth y Swyddog Lles Addysg. Bydd y swyddog yn trafod sut y gellir osgoi absenoldebau dianghenraid.

Os nad yw'r sefyllfa yn gwella byddwn yn trefnu cyfarfod yn yr ysgol i drafod absenoldeb y disgybl a chytuno ar gynllun gweithredu

RHOI CANIATÂD I'R YSGOL FFILMIO A THYNNU LLUNIAU DISGYBLION

O bryd i'w gilydd bydd yr ysgol yn dymuno ffilmio a/neu dynnu lluniau disgyblion am nifer o resymau angenrheidiol:

- Lluniau ar gyfer llawlyfr
- Gwefan yr ysgol
- Cyhoeddusrwydd i lwyddiannau unigolion, timau a grwpiau o ddisgyblion
- Lluniau o ddsbarthiadau cofrestru
- Lluniau disgyblion mewn blwyddyn ysgol benodol
- Gweithgareddau drama, eisteddfodau a pherfformiadau cerddorol
- Gwaith grŵp mewn ystafell ddsbarth
- Ffilmio ar gyfer rhaglenni teledu a chyfweliadau rhaglenni newyddion
- Cofnod gweledol o wibdaith – lleol neu dramor
- Lluniau ar sgrin fawr y Neuadd adeg gwasanaethau boreol

Gobeithir y rhowch ganiatâd fel rhiant/gwarcheidwad i'r ysgol i barhau i fedru ffilmio a thynnu lluniau eich mab/merch pan fydd galw i wneud hynny.

DEFNYDD O DDATA BIOMETRIG YN LLYFRGELL YSGOL BRO MYRDDIN

- Ers mis Medi 2013 mae'n ddyletswydd cyfreithiol ar bob ysgol i ofyn am ganiatâd pob rhiant/gwarcheidwad i gasglu ac yna defnyddio data biometrig (Deddf Diogelu Rhyddiadau 2012).
- Ers sawl blwyddyn bellach mae benthycwyr llyfrau o'r llyfrgell ysgol wedi bod yn cyffwrdd â theclyn biometrig bychan sy'n darllen ôl bysedd. Y cyfan y mae angen i'r disgyblion ei wneud yw rhoi un o fysedd eu llaw chwith neu law dde ar sganiwr bach, gan weithio'n gwbl annibynnol i unrhyw system gyfrifiadurol arall. Y cyfan sydd angen i'r disgybl ei gofio er mwyn benthycwyr llyfr yw ei fys!
Nid oes angen i chi boeni dim am ein defnydd o'r dechnoleg yma. Nid yw'n peryglu iechyd unigolion a medraf eich sicrhau na fydd patrwm ôl bysedd eich mab/merch yn cael ei ddefnyddio at unrhyw ddefnydd arall.
- Pan fydd eich mab/merch yn gadael yr ysgol, neu os bydd yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r system fiometrig am reswm arall, caiff y data biometrig ei ddileu.

DEFNYDD CYFRIFOL O'R WÊ / RHEOLAU E-DDIOGELWCH – CYTUNDEB DISGYBL

- Byddaf yn defnyddio systemau TGCh yn yr ysgol, gan gynnwys y rhyngwrwyd, e-bost, fideo digidol, technolegau symudol, ac ati, at ddibenion gwaith ysgol yn unig;
- Ni fyddaf yn llawrlwytho neu osod meddalwedd ar dechnolegau'r ysgol;
- Byddaf yn mewngofnodi i rwydwaith neu lwyfan dysgu gan ddefnyddio fy enw defnyddiwr a chyfrinair personol yn unig;
- Byddaf yn cadw fy enw defnyddiwr a chyfrinair yn gwbl gyfrinachol;
- Byddaf yn defnyddio fy nghyfeiriad e-bost ysgol yn unig tra yn yr ysgol;
- Byddaf yn sicrhau bod pob cyfathrebu TGCh gyda disgyblion, athrawon ac eraill yn gyfrifol a synhwyrol;
- Byddaf yn cymryd cyfrifoldeb am fy ymddygiad wrth ddefnyddio'r rhyngwrwyd. Mae hyn yn cynnwys yr adnoddau y byddaf yn cyrchu a'r iaith y byddaf yn defnyddio;
- Ni fyddaf yn fwriadol yn pori, llwytho i lawr, llwytho i fyny neu yn blaenyrru deunydd y gellid eu hystyried yn dramgwyddus neu'n anghyfreithlon. Os byddaf yn ddamweiniol yn darganfod unrhyw ddeunydd o'r fath byddaf yn cysylltu ar unwaith gydag aelod o staff;
- Ni fyddaf yn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol megis enw, rhif ffôn, neu gyfeiriad. Ni fyddaf yn trefnu i gwrdd â rhywun oni bai bod hyn yn rhan o brosiect ysgol a gymeradwywyd gan fy athro;
- Ni fyddaf yn tynnu llun disgyblion neu staff, os nad ydy hyn wedi cael ei gytuno ymlaen llaw, yn unol â pholisi ysgol. Ni fydd hawl i ddsbarthu unrhyw luniau y tu allan i rwydwaith yr ysgol heb ganiatâd;
- Byddaf yn sicrhau na fydd fy ngweithgaredd ar lein, yn yr ysgol a thu allan iddi, yn peri gofid i aelodau o staff, disgyblion ac eraill nac yn dod a gwarth arnynt hwy na'r ysgol;

- Byddaf yn cefnogi agwedd yr ysgol tuag at ddiogelwch ar-lein ac ni fyddaf yn fwriadol yn llwytho neu ychwanegu delweddau, fideos, synau neu destunau y gellir gofidio neu ddigio unrhyw aelod o gymuned yr ysgol;
- Byddaf, bob amser, yn parchu hawlfraint a hawliau perchnogaeth ddeallusol gwaith eraill ar lein;
- Ni fyddaf yn mewngofnodi i unrhyw safweoedd megis Facebook neu ystafelloedd sgwrsio ac ati;
- Ni fyddaf yn ceisio osgoi system hidlo rhyngrwyd yr ysgol;
- Deallaf, os ydw i'n dymuno defnyddio offer personol megis ffonau (megis iPhone), dabledi (megis iPad) neu liniaduron yn yr ysgol, y bydd yn rhaid i fi gael caniatâd fy Mhennaeth Blwyddyn neu aelod o'r Uwch Dîm Arwain. Hefyd bydd yn rhaid i fi ddilyn rheolau'r ysgol;
- Deallaf mai fy nghyfrifoldeb i, os ydw i'n dod ag offer personol i'r ysgol, yw i sicrhau diogelwch fy offer yn yr ysgol. Ni fydd yr ysgol yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am ddifrod neu golled.
- Deallaf fod gan yr ysgol hawl i fonitro a chadw cofnod o fy nefnydd o'r rhyngrwyd ac unrhyw dechnolegau cysylltiedig a byddant ar gael i fy athrawon eu gweld;
- Deallaf fod y rheolau hyn ar gael er mwyn fy niogelu ac os byddaf yn torri rheol y bydd system disgyblu'r ysgol yn cael ei weithredu a gellir cysylltu gyda fy rhieni neu ofalwyr.